

**Bwletin Awdurdod S4C**  
**- Cyfarfod 282 –28 Hydref 2005,**  
**- S4C, Caerdydd**

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 28 Hydref, 2005.

**Prif Weithredwr**

Nododd y Cadeirydd ddyfodiad y Prif Weithredwr newydd a dymunodd yn dda iddi hi.

**Cofnodion Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Nodwyd y cofnodion. Bydd angen i'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg eu cymeradwyo yn ei gyfarfod nesaf.

**Adroddiad Cadeirydd**

Cyflwynodd ECS adroddiad y Cadeirydd. Nodwyd y pwyntiau canlynol:

**Pwrpas yr Awdurdod**

Nodwyd bod angen dyfnhau arwahanrwydd yr Awdurdod oddi wrth faterion rheoli. Materion statudol i'w rhoi yn uwch ar agenda cyfarfodydd yr Awdurdod. Angen llai o adroddiadau ffeithiol o fis i fis ond edrych ar faterion strategol sawl gwaith y flwyddyn.

Papur ar swyddogaethau'r Awdurdod a ble mae'n gorgyffwrdd â swyddogaethau OFCOM i gael ei baratoi ar gyfer cyfarfod nesaf yr Awdurdod ac i'w drafod ymhellach ar y "Diwrnod i Ffwrdd".

**Digwyddiadau Tachwedd**

Nodwyd bod cyfarfod gyda'r BBC ar y 10fed o Dachwedd. Bydd cyfarfod cyntaf rhwng Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr y ddau gorff. Bydd Aelodau'r Awdurdod a Llywodraethwyr BBC Cymru yn dod at ei gilydd yn hwyrach.

**Cadeiryddiaeth**

Nododd ECS mai DCMS fydd yn cynnal y broses o chwilio am Gadeirydd newydd.

**Adroddiad Cwynion**

Nodwyd yr adroddiad cwynion swyddogol. Am y tro cyntaf nodwyd bod angen i bob cwyn fynd drwy swyddfa'r Ysgrifennydd.

**Adroddiad ar gynrychiolaeth y pleidiau gwleidyddol ar raglenni Cymraeg S4C yn ystod cyfnod ymgyrchu Etholiad San Steffan 2005**

Ystyriwyd yr adroddiad ar y pwnc.

**Adolygiad o berfformiad yn erbyn targedau yng Nghynllun Corfforaethol 2005**

Ystyriwyd yr Adroddiad Monitro Cynllun Corfforaethol ar gyfer Chwarter 3.

### **Adroddiad y Prif Weithredwr**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr ei hadroddiad ac ymunodd Arshad Rasul i gyflwyno ei atodlen ar gario S4C ar blethiad DTT PSB ar ôl diffodd analog. Trafodwyd y canlynol hefyd:

- i) **Digidol Daearol**
- ii) **Switchco**
- iii) **Cydnabyddiaeth Nawdd**
- iv) **BBC**
- v) **Y Gwasanaeth**

### **Adroddiad a Chyflwyniad Ymchwil**

Rhoddodd Carys Evans grynodedb o gyflwyniad ymchwil John Priest ar waith yr SPA ar gyfer S4C “*Keeping in Touch with the Audience – Trends and Insights*”.

Cyflwynodd Ellen Looker ei phapur ar “Ffigyrau gwyllo S4C”.

### **Cyllideb 2006**

Cyflwynodd KM ddrafft o gyllideb y Gronfa Gwasanaeth Cyhoeddus 2006-2015. Derbyniwyd y Gyllideb.

### **Materion Eraill**

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Papur Nawdd
- Adroddiad a Chofnodion Cyfarfod y Grŵp Cydymffurfiaeth
- Adroddiad Gwifren Gwylwyr.
- Adroddiad Ariannol.

